# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Dylan Wyn Rees**
**Grŵp: Plaid Cymru – the Party of Wales** **Ward: Canolbarth Môn**

## 1 – Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | [1]Ffigyrau Presenoldeb |
|---|---|
| Y Cyngor | 6 (75%)* |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 6 (100%) |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 2 (100%) |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cadeirydd | 3 (100%) |
| Panel Rhiant Corfforaethol | 3 (75%) |
| *Wedi colli dau gyfarfod a gynhaliwyd ar yr un diwrnod.<br><br>Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau – fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 5 cyfarfod (83%). Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Grantiau Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

| Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol: | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd | Nifer a fynychwyd |
|---|---|---|
| Cyngor Iechyd Cymuned – Cyfarfodydd Pwyllgor Lleol Ynys Môn a'r Cyngor Llawn | 8 | 7 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Yn ogystal ag eistedd ar y pwyllgorau uchod byddaf hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill yn fy ward yn rheolaidd, yn cynnwys:

Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned – Rwyf yn Gynghorydd Tref ar Gyngor Tref Llangefni (mynychais 13 o gyfarfodydd y Cyngor llawn allan o 14 = 93.%) ac rwyf hefyd wedi cymryd y prif gyfrifoldeb ymysg tri Chynghorydd Canolbarth Môn am fynychu Cyngor Cymuned Bodffordd (mynychais 12 allan o 12 o gyfarfodydd – 100%).

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Bryngwran yn rheolaidd er mai fy nghyd Gynghorwr Canolbarth Môn, Bob Parry, yw'r prif gynrychiolydd ar y pwyllgor hwn.

Cyfarfodydd Llywodraethwr Ysgol – Rwy'n llywodraethwr ysgol yng Nghanolfan Addysg y Bont ac yn Is-gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gymuned Bodffordd.

Rwy'n ymddiriedolwr gyda Gobaith Môn sef elusen sy'n hyrwyddo gwaith ieuenctid Cristnogol ar yr ynys. Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd cyswllt gyda Cymunedau'n Gyntaf Môn yn rheolaidd. Ddwy flynedd yn ôl fe'm penodwyd i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru sy'n un o wyth pwyllgor gwarchod statudol gan y GIG yng Nghymru sy'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd a chleifion yn y maes gofal iechyd. Fel rhan o'm rôl, rwyf wedi cynnal ymweliad arolwg dirybudd mewn ysbyty leol a hefyd wedi cynorthwyo gydag arolygon cleifion yn Ysbyty Gwynedd.

Yn gynharach eleni fe'm penodwyd yn Ddeilydd Portffolio Cysgodol ar gyfer "Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth" o fewn Gwrthblaid Plaid Cymru. O ganlyniad rwy'n mynychu sesiynau briffio rheolaidd sy'n cael eu cynnal rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r Deilydd Portffolio. Fel rhan o'm rôl rwyf hefyd yn mynychu digwyddiadau busnes perthnasol e.e. "Cyngor Busnes Rhyngwladol Cymru" a byddaf hefyd weithiau'n cyfarfod â pherchnogion/cyfarwyddwyr busnesau lleol e.e. Marco Cable Management, Hogans.

Yn ogystal â mynychu amrywiol gyfarfodydd, mae gennyf hefyd lwyth gwaith sylweddol wrth i mi geisio gwneud gwaith ar ran etholwyr. Dyma rai esiamplau o'r mathau o achosion yr wyf wedi delio â hwy dros y 12 mis diwethaf:

- Cynllunio – gwrthwynebiadau i geisiadau a chymorth gyda cheisiadau
- Tai – darparu cyngor a chymorth ynglŷn â'r polisi gosod a chynorthwyo cleientiaid sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.
- Priffyrdd – cwynion ynglŷn â pharcio, tyllau yn y ffordd, gyrru.

Er mwyn i mi fod ar gael i fy etholwyr rwyf wedi creu fy nhudalen Facebook fy hun. Ynghyd â fy nau Gyd-gynghorydd Canolbarth Môn rwyf hefyd wedi dechrau cynnal cymorthfeydd yn Llangefni i ddarparu cyngor.

### 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn ystod y 12 mis diwethaf rwyf wedi bod yn brysur iawn fel Cadeirydd Prosiect Parc Chwaraeon Trefol Llangefni. Y mis Tachwedd 2015 fe wnaeth y Loteri Fawr dderbyn y cynnig amlinellol ar gyfer y prosiect. Ers hynny mae'r grŵp prosiect wedi bod yn gweithio'n galed ar gwblhau'r cais llawn am fod rhaid ei gyflwyno erbyn mis Gorffennaf 2016. Os bydd yn llwyddiannus, bydd Parc Chwaraeon Trefol sy'n costio oddeutu £300,000 yn cael ei adeiladu ar safle'r hen barc sglefrio gyferbyn â Chanolfan Hamdden Plas Arthur. Yn ogystal ag ardal chwaraeon ar olwynion i rai sy'n sglefrfyrddio, yn defnyddio sgwter a BMX, bwriedir hefyd cael ardal pêl fasged, wal ddringo a champfa awyr agored.

Ar 24 Mai 2015 cymerais ran yn 'Walkathon' Menter Môn, taith gerdded noddedig am bellter o 26.2 milltir. O ganlyniad llwyddais i hel cyfanswm o £550 at "Barc Plant Gwalchmai".

Ym mis Gorffennaf 2015 dathlais fy mhen-blwydd yn 60 oed gan gymryd rhan yn "Her Mari Jones". Roedd hon yn daith gerdded noddedig am 28 milltir o Lanfihangel y Pennant i'r Bala, gan ddilyn ôl troed Mari Jones pan oedd yn ifanc a gerddodd yn droednoeth ar hyd y llwybr hwn i ofyn i'r gweinidog lleol am Feibl. O ganlyniad llwyddais i hel £1,000 at Gymdeithas y Beibl yng Nghymru.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Anwytho – Cyngor Iechyd Cymuned | Mai 2015 |
| Sesiynau Briffio Aelodau = 7 allan o 11 (64%) | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Fel y gallaf wasanaethu fy etholwyr yn y ffordd orau rwy'n cydnabod bod angen i mi ymgysylltu cymaint ag sy'n bosibl yn y gymuned. O ganlyniad rwy'n mynychu gwahanol ddigwyddiadau diwylliannol/cymunedol a digwyddiadau cyhoeddus yn rheolaidd e.e.

**Digwyddiadau Diwylliannol** – cyngerdd yr Eisteddfod yn Ysgol Gyfun Llangefni, Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc, noson 'Cawl a Chân' yn Neuadd y Dref Llangefni, nosweithiau'n agor amrywiol arddangosfeydd yn Oriel Môn.

**Digwyddiadau Cymdeithasol a Chymunedol** – Cyngerdd Elusennol y Maer yng Nghapel Moreia, Rali Ffermwyr Ifanc ym Mona, Diwrnod i'r Teulu ym Mona, ras 5k Awyr Las ym Mhlas Newydd, Cyngherddau Nadolig yn Eglwys Cyngar Sant, Neuadd Bodwrog a Chanolfan Addysg y Bont.

**Digwyddiadau Ymgynghori** – cyflwyniad 'Codi STEM' yng Ngholeg Menai, "Adeiladu Cymunedau" yng Nghanolfan Ebeneser, sesiwn ymgysylltu efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Neuadd y Dref Llangefni, Fforwm y Bobl yn Oriel Môn, ymgynghoriad National Grid yng Nghanolfan Ebeneser, ymgynghoriad Horizon yn Neuadd y Dref Llangefni, cyfarfod cyhoeddus yng nghae sioe Mona ynglŷn â'r ymgynghoriad ar safleoedd i sipsiwn/teithwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=267&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dylan Rees** | **Ebrill 2016** |